Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

# Darparu cartrefi i ffoaduriaid o Wcráin

Mawrth 2023

## Y cefndir

**1.** Ar 11 Mai 2022 gwnaethom gynnal sesiwn dystiolaeth gyda Cyfiawnder Tai Cymru ar y gwaith y mae'n ei wneud i ddarparu cartrefi i ffoaduriaid o Wcráin yng Nghymru. Yn dilyn y sesiwn honno, gwnaethom gytuno i wneud gwaith pellach ar hyn, gan gynnwys cynnal sesiynau casglu tystiolaeth gyda rhanddeiliaid perthnasol. Gwnaethom ysgrifennu at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ("y Gweinidog") ar 26 Mai 2022 i amlinellu ein pryderon ar hyn o bryd. Cawsom ymateb ar 14 Mehefin 2022.

**2.** Ar 22 Mehefin 2022, gwnaethom gasglu tystiolaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru, Oasis, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Cytûn – Eglwysi Ynghyd yng Nghymru. Yn dilyn y sesiwn, gwnaethom ysgrifennu at y Gweinidog eto ar 13 Gorffennaf 2022. Cawsom ymateb ar 3 Awst 2022.

**3.** Ar 27 Hydref 2022, cynhaliwyd sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog. Ysgrifennodd y Gweinidog atom ar 18 Tachwedd 2022 i roi rhagor o wybodaeth yn dilyn y sesiwn dystiolaeth.

## Taliadau diolch

**4.** Mae Llywodraeth y DU yn gwneud taliadau misol o £350 i noddwyr ffoaduriaid o dan y Cynllun Cartrefi i Wcráin, ond nid ar gyfer y rhai sydd wedi cyrraedd y DU drwy'r Cynllun Teuluoedd o Wcráin. Er bod y taliadau i'w croesawu, clywsom bryderon nad yw £350 y mis yn ddigon i dalu costau bwyd ac ynni uwch, yn enwedig gan fod costau byw yn cynyddu. Mewn rhai achosion, gallai peidio â rhoi digon o arian arwain at densiynau neu hyd yn oed chwalu'r berthynas rhwng ffoaduriaid a'u noddwyr.

**5.** Rhannodd y Gweinidog y pryderon hyn a rhoddodd sicrwydd inni fod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU y dylid cynyddu'r taliad misol i £500, ac y byddai'n parhau i wneud hynny.

**6.** Mae papur y Gweinidog yn nodi nad oes cyllid ar gael gan Lywodraeth y DU ar gyfer y Cynllun Teuluoedd o Wcráin a bod yn rhaid i unrhyw gymorth a roddir gael ei amsugno o fewn gwasanaethau presennol awdurdodau lleol. Cadarnhaodd y Gweinidog ar 6 Gorffennaf 2022 y bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu taliad misol o £350 er mwyn cefnogi'r rhai sy'n cyrraedd o dan y Cynllun Teuluoedd o Wcráin pan na fo modd iddynt fyw gyda'r noddwyr sy'n deulu iddynt mwyach ac y bu'n rhaid iddynt gael eu hail-baru gyda lletywyr nad ydynt yn perthyn iddynt.

**7.** Cadarnhaodd Llywodraeth y DU y canlynol ar 14 Rhagfyr 2022:

> *"the £350 'thank you' payments, will be extended from 12 months to a maximum duration of two years. The Government will also increase the minimum 'thank you' payments for hosts from £350 per month to £500 per month, once a guest has been here in the UK for 12 months. This applies to all families hosting anywhere in the UK."*

**8.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban ymateb ar y cyd i'r cyhoeddiad, a oedd yn nodi'r canlynol:

> *"Whilst we welcome the additional payments to volunteer hosts, they are needed now – not after 12 months of hosting. Many hosts have told us that without additional financial support, the cost of living crisis means they will not be able to continue to provide this exceptional service."*

**9.** Mewn datganiad i'r Cyfarfod Llawn ar 24 Ionawr 2023, dywedodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol y canlynol:

> *"Roeddem yn falch o weld cadarnhad y bydd taliadau 'diolch' i'r gwesteiwyr yn cael eu hymestyn am yr ail flwyddyn. Mae hyn yn bwysig iawn oherwydd, pan fo lleoliadau lletya'n gweithio'n dda, gall hyn leddfu'r galw am dai a chreu rhwydwaith o gymorth. Mae'r penderfyniad i godi'r taliadau 'diolch' i £500 y mis hefyd i'w groesawu, er ein bod yn siomedig na fydd hyn yn digwydd tan ar ôl 12 mis ar ôl i'r person sy'n cael ei letya gyrraedd."*

**Casgliad 1.** Rydym yn croesawu'r taliadau misol gan Lywodraeth y DU i noddwyr a'r ffaith bod y taliadau wedi'u hymestyn i gyfnod o ddwy flynedd, ond rydym o'r farn bod £350 yn annigonol, yn wyneb costau bwyd ac ynni cynyddol. Rydym yn falch y bydd y taliad yn codi i £500, ac rydym yn cydnabod y bydd lletywyr sydd wedi croesawu gwesteion yn fuan ar ôl dechrau'r ymosodiad ar Wcráin ym mis Mawrth 2022 yn cael y taliad uwch hwn yn fuan. Fodd bynnag, credwn y dylid cynyddu'r taliad i £500 ar gyfer pob un sy'n rhoi llety, nid dim ond y rhai sydd wedi bod yn gwneud hyn am fwy na blwyddyn. Dylai Llywodraeth Cymru barhau â'i hymdrechion i ddarbwyllo Llywodraeth y DU i roi cynnydd o'r fath i bawb sy'n rhoi llety.

**Casgliad 2.** Os na fydd Llywodraeth Cymru yn gallu darbwyllo Llywodraeth y DU i gynyddu'r taliadau misol, rydym o'r farn y dylai ystyried ariannu taliadau pontio ar gyfer lletywyr yng Nghymru i sicrhau bod pawb yn cael taliad misol o £500. Rydym yn pryderu efallai na fydd lletywyr yn gallu parhau i wneud hyn yng wyneb pwysau cynyddol o ran costau ac rydym o'r farn y gallai taliadau pontio fod yn fwy cost effeithiol na dod o hyd i lety arall pe bai'r cynnig o lety yn dod i ben.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru barhau â'i hymdrechion i ddarbwyllo Llywodraeth y DU i gynyddu'r taliad misol i letywyr i £500 neu, os nad yw hyn yn bosibl, ystyried ariannu taliadau pontio i letywyr yng Nghymru i sicrhau bod pawb yn cael taliad misol o £500.

**Casgliad 3.** Rydym yn croesawu'r cymorth ariannol y mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi i'r rhai sydd wedi cyrraedd Cymru drwy'r Cynllun Teuluoedd o Wcráin.

## Dyrannu llety symud ymlaen

**10.** Ar 22 Tachwedd 2022, dywedodd y Gweinidog wrth y Senedd fod 3,000 o bobl o Wcráin wedi'u croesawu i Gymru drwy gynllun uwch-noddwyr Llywodraeth Cymru, a bod 1,600 arall wedi cael fisa ond nad oeddent wedi cyrraedd Cymru. Dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym y gallai, o bosibl, 1,000 o bobl eraill gyrraedd Cymru erbyn rhywbryd yn ystod 2023. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i roi cymorth priodol i'r rhai sy'n cyrraedd a'i bod yn hyderus bod capasiti ar gael i ddarparu ar gyfer y niferoedd sy'n cyrraedd. Mae Llywodraeth y DU yn cyhoeddi ffigurau wythnosol ar nifer y ceisiadau am fisa, nifer y fisâu a roddwyd a nifer y rhai sy'n cyrraedd y DU; mae'r rhain yn cynnwys dadansoddiad o'r ffigurau ar gyfer Cymru.

**11.** Mewn datganiad ar 14 Chwefror 2023, rhoddodd y Gweinidog y ffigurau diweddaraf:

> *"Wales has now welcomed just over 6,400 Ukrainians under Homes for Ukraine. Almost 3,400 have been sponsored by Welsh households, with just*

*over 3,000 sponsored by the Welsh Government by 7 February. Over 1,300 of those Welsh Government has sponsored have now moved into longer term accommodation. There have been additional arrivals under the Ukraine Family Scheme but we are not given that data by the UK Government.*

*The total number of granted visas has not grown very much in 2023 so far. Around 8,750 visas have now been granted to those with sponsors in Wales. There remain around 1,500 individuals with visas who are yet to travel and we remain mindful that events in Ukraine can have a direct impact on the number of Ukrainians who may arrive in Wales."*

**12.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod pobl wedi symud ymlaen o'r canolfannau croeso, gyda rhai yn symud i fyw gyda lletywyr ac eraill yn symud i'r sector rhentu preifat. Fodd bynnag, cydnabu'r Gweinidog fod "her wirioneddol" ynghylch sicrhau llety tymor hwy yn y sector rhentu preifat. Cyfeiriodd papur y Gweinidog at ddiffyg eiddo rhent preifat fforddiadwy a phryderon ynghylch amharodrwydd pobl i symud allan o'r llety cychwynnol. I gefnogi hyn, mae'r papur yn nodi bod:

*"gohebiaeth genedlaethol ynglŷn â symud ymlaen wedi'i datblygu, wedi'i hategu gan gwestiynau cyffredin manwl. Mae cod ymddygiad a pholisïau ymddygiadol hefyd yn cael eu sefydlu er mwyn pennu disgwyliadau o ran ymddygiad disgwyliedig ac mae polisi i ymateb pan fydd pobl yn gwrthod sawl cynnig addas o lety symud ymlaen yn cael ei ddatblygu. Mae hefyd yn ceisio cysoni polisïau ar gyfer teuluoedd o Wcráin yn agosach â pholisïau ar gyfer carfanau eraill y mae angen tai arnynt."*

**13.** Yn ei datganiad llafar ar 22 Tachwedd 2022, dywedodd y Gweinidog y canlynol wrth y Senedd:

*"mae'r pwysau ehangach ar dai ar draws Cymru yn golygu na allwn ni gefnogi pobl i lety mwy hirdymor mor gyflym ag y byddem ni'n dymuno. Felly, byddwn ni'n parhau i annog darpar letywyr i ddod ymlaen a chofrestru eu diddordeb."*

**14.** Cadarnhaodd y Gweinidog yn ei llythyr dyddiedig 18 Tachwedd 2022 fod y ffigurau diweddaraf o Blatfform Data Wcráin yn dangos bod 698 o bobl o Wcráin a neilltuwyd i lety cychwynnol wedi'u cofnodi fel rhai sydd wedi 'symud ymlaen'. O'r rhain mae 508 wedi symud ymlaen o fewn Cymru, gyda 104 arall mewn rhannau eraill o'r DU ac 86 y tu allan i'r DU.

**15.** Mewn datganiad ar 24 Ionawr 2023, dywedodd y Gweinidog y canlynol:

> *"rydym bellach wedi gweld mwy na 1,200 o bobl a ddaeth drwy'r llwybr uwch-noddwr yn symud ymlaen, ac mae dros 800 ohonyn nhw wedi ymgartrefu mewn llety mwy hirdymor yng Nghymru, fel trefniadau gwesteiwyr neu'r sector rhentu preifat."*

**16.** Cafwyd adroddiadau yn y cyfryngau y bydd Llywodraeth Cymru yn dechrau cau ei chanolfannau croeso, er nad oes datganiad swyddogol wedi'i wneud gan Lywodraeth Cymru. Mewn ymateb i gwestiynau llafar ar 1 Mawrth 2023, dywedodd y Gweinidog wrth y Senedd "nid oes unrhyw un wedi cael ei symud o ganolfan groeso, ni fydd unrhyw un yn cael ei wneud yn ddigartref o'r llety dros dro cychwynnol hwnnw".[1]

**17.** Dywedwyd hefyd y bydd llety modiwlaidd newydd yn cael ei ddefnyddio i ddarparu cartrefi i bobl o Wcráin, gan gynnwys a datblygiad o tua 90 o unedau ar safle yn Llanilltud Fawr, Bro Morgannwg. Cafwyd adroddiad yn Wales Online a oedd yn nodi bod y Gweinidog wedi dweud y bydd llety newydd gan gynnwys cartrefi modiwlaidd ar gael yn gyflym iawn. Mae gwybodaeth a gyhoeddwyd gan Gyngor Bro Morgannwg yn nodi'r canlynol:

> *"Mae disgwyl i'r datblygiad gael ei gwblhau cyn diwedd y flwyddyn, ond gall rhan ohono fod yn weithredol erbyn yr haf, er bod hynny'n dibynnu ar gwblhau gwahanol gamau o'r datblygiad."*

**Casgliad 4.** Mae adroddiadau y bydd Llywodraeth Cymru yn dechrau cau ei chanolfannau croeso yn destun pryder i ni. Rydym wedi ein synnu gan gam o'r fath, o ystyried yr adborth cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid ynghylch rôl y canolfannau. Hoffem i Lywodraeth Cymru amlinellu ei rhesymeg, os bydd yn dechrau cau'r canolfannau, ac egluro sut y mae'n bwriadu sicrhau y bydd y rhai sydd yn y canolfannau ar hyn o bryd yn cael eu symud i lety addas. Credwn y dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd fel mater o frys i egluro safbwynt Llywodraeth Cymru o ran canolfannau croeso.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd fel mater o frys i egluro ei safbwynt o ran canolfannau croeso.

**Casgliad 5.** Rydym yn arbennig o bryderus ynghylch a oes digon o letyau ar gael i bobl o Wcráin o ystyried yr adroddiadau ynghylch cau canolfannau croeso, ac yn ymwybodol y gallai rhagor o bobl deithio o Wcráin. Rydym yn ymwybodol, drwy ein gwaith parhaus ar

[1] 76

ddigartrefedd, o'r nifer uchel o bobl sy'n cael eu rhoi mewn llety dros dro ar hyn o bryd a'r heriau a wynebir gan awdurdodau lleol o ran dod o hyd i gartrefi parhaol naill ai drwy dai cymdeithasol neu'r sector rhentu preifat. Credwn ei bod yn hollbwysig bod lletywyr annibynnol yn cael yr holl gymorth angenrheidiol gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i'w galluogi i barhau i groesawu pobl o Wcráin am gyhyd ag sydd angen a chyhyd â'u bod yn gallu gwneud hynny.

**Casgliad 6.** Gwnaethom nodi yn ein hadroddiad diweddar ar ddigartrefedd y potensial ar gyfer defnyddio adeiladau modiwlaidd fel llety dros dro y gellid ei adeiladu'n gymharol gyflym lle mae tir addas ar gael, a gwnaethom gydnabod bod rhai awdurdodau'n defnyddio adeiladau modiwlaidd ar gyfer llety dros dro yn effeithiol. Rydym yn cydnabod adroddiadau am gynlluniau gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i adeiladu llety modiwlaidd er mwyn darparu cartref i bobl o Wcráin, ond dylai Llywodraeth Cymru egluro ei bwriad o ran defnyddio'r math hwn o lety a sut y bydd yn mynd i'r afael â'u hanghenion. Credwn fod angen rhagor o wybodaeth am yr amserlen ar gyfer datblygu cartrefi modiwlaidd, a fydd disgwyl i fwy o awdurdodau lleol ddarparu llety o'r fath, a'r cyllid sydd ar gael i awdurdodau lleol.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am ei bwriad o ran defnyddio llety modiwlaidd i ddarparu cartrefi i bobl o Wcráin. Dylai hyn gynnwys manylion am ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol o ran datblygu llety o'r fath, ac am y cyllid sydd ar gael iddynt, a'i bwriad yn y tymor hwy o ran ei ddefnyddio.

**Casgliad 7.** O ystyried nifer y ffoaduriaid o Wcráin y mae angen llety symud ymlaen arnynt o hyd, credwn y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynllun hirdymor i sicrhau bod digon o lety addas ar gael i gartrefu'r rhai mewn angen.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynllun hirdymor i sicrhau bod digon o lety symud ymlaen addas ar gael i bobl o Wcráin.

**Casgliad 8.** Rydym yn croesawu dull Llywodraeth Cymru o gysoni'r polisïau ar gyfer teuluoedd o Wcráin yn agosach â pholisïau ar gyfer carfannau eraill y mae angen tai arnynt. Bydd yn bwysig sicrhau bod cynigion o lety symud ymlaen yn briodol ar gyfer anghenion teuluoedd unigol o ran maint a lleoliad, fel nad yw pobl yn cael eu cosbi am wrthod llety a fyddai'n anaddas i'w hanghenion.

## Cyllid ar gyfer awdurdodau lleol

**18.** Rydym yn ymwybodol, ar gyfer y rhai a gyrhaeddodd cyn 1 Ionawr 2023, bod Llywodraeth y DU yn rhoi tariff integreiddio o £10,500 i awdurdodau lleol ar gyfer pob ffoadur yn ystod eu

blwyddyn gyntaf ar ôl cyrraedd. Mae Llywodraeth y DU hefyd yn rhoi tariff addysg i awdurdodau lleol yn ôl oedran y plentyn (yn amrywio o £3,000 i £8,755 am flwyddyn gyfan) a'r dyddiad cyrraedd yn y DU. Mae hyn ar gyfer y flwyddyn gyntaf yn unig ac yn cael ei gyfrifo yn ôl y dyddiad cyrraedd.

**19.** Cadarnhaodd Llywodraeth y DU y canlynol ar 14 Rhagfyr 2022:

> *"The Government will reduce the tariff for each local authority. We recognise that this is a difficult decision. Councils will continue to receive the existing year 1 tariff to support those Ukrainians that have already arrived, as previously set out, but from 1 January 2023, councils will receive funding of £5,900 for each new arrival to support guests and their sponsors (in addition to the 'thank you' paid to sponsors)."*

**20.** Cadarnhaodd Llywodraeth y DU na fydd y tariffau addysg yn newid.

**21.** Cyhoeddodd Llywodraeth y DU y canlynol hefyd:

> *"£150 million of new UK-wide funding in the 2023/24 financial year to local authorities and devolved governments to help support Ukrainian guests move into their own homes and reduce the risk of homelessness."*

**22.** Nododd yr ymateb ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban y canlynol:

> *"The changes announced amount to a reduction in funding available to help people fleeing Putin's illegal war in Ukraine settle into a new home. In the face of continued and acute need, it is counter-productive and short-sighted to cut vital funding available to deliver public services to the most vulnerable. It will place local authorities under extreme and unacceptable pressure during an unprecedented cost of living crisis.*
>
> *Those arriving from Ukraine deserve the same care and support which we provide to those arriving from Afghanistan or through the UK Resettlement Scheme. The approach and funding model used under those schemes is internationally recognised as good practice and supported by each of our Governments. The decision to undermine the success of this safe and legal route to the UK is at odds with recent UK Government claims about a generous approach."*

**23.** Ar 24 Ionawr 2023, dywedodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol y canlynol:

> *"Rydym yn siomedig iawn gyda'r penderfyniad i haneru'r tariff integreiddio bron i £5,900 ar gyfer newydd-ddyfodiaid o 1 Ionawr ymlaen, yn ogystal â'r penderfyniad i beidio â darparu tariff integreiddio blwyddyn 2. Nid yw'r penderfyniadau hyn yn cyd-fynd â chynlluniau adsefydlu eraill ac maen nhw'n lleihau cyllid hanfodol i awdurdodau lleol ar adeg o bwysau cyllidebol aruthrol. O dan gynlluniau adsefydlu eraill, ar y cyfan mae awdurdodau lleol wedi derbyn tua £20,000 y pen dros gyfnod o dair i bum mlynedd. Ar gyfer y rhai yn cyrraedd o Wcráin o 1 Ionawr 2023, bydd hwn ychydig yn llai na £6,000."*

**24.** Gan gyfeirio at y £150 miliwn, ar 14 Chwefror 2023, dywedodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol y canlynol:

> *"rydym ni'n dal i weithio gyda Llywodraeth y DU i ddarganfod pa gyfran o'r gronfa newydd gwerth £150 miliwn ar gyfer cymorth tai i Wcreiniaid yn ystod 2023-24 fydd yn dod i Gymru. Rydym ni wedi cyflwyno cynnig ac rydym ni wedi bod yn eglur bod angen eglurder ar frys i alluogi awdurdodau lleol i gynllunio'n ddigonol."*

**Casgliad 9.** Credwn ei bod yn hollbwysig bod Llywodraeth y DU yn parhau i roi cyllid i awdurdodau lleol i gefnogi'r ffoaduriaid yn eu hardaloedd. Rydym yn siomedig â phenderfyniad Llywodraeth y DU i leihau'r tariff integreiddio ar gyfer pobl sy'n cyrraedd ar ôl 1 Ionawr 2023 ac rydym yn pryderu ynghylch yr effaith y gallai hyn ei chael ar integreiddio ffoaduriaid o Wcráin. Rydym hefyd yn pryderu na fydd tariff integreiddio penodol unwaith y bydd ffoaduriaid wedi bod yn y DU am fwy na blwyddyn, yn enwedig gan y bydd llawer yn cyrraedd y garreg filltir honno erbyn hyn. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ellid defnyddio rhywfaint o'r £40 miliwn y mae wedi'i dyrannu yn ei chyllideb ar gyfer 2023-24 i helpu awdurdodau lleol i barhau i ddarparu gwasanaethau i'r rhai sy'n ffoi rhag y rhyfel yn Wcráin i dalu'r gwahaniaeth yn y tariff integreiddio.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ellid defnyddio rhywfaint o'r £40 miliwn y mae wedi'i dyrannu yn ei chyllideb ar gyfer 2023-24 i helpu awdurdodau lleol i barhau i ddarparu gwasanaethau i'r rhai sy'n ffoi rhag y rhyfel yn Wcráin i dalu'r gwahaniaeth yn y tariff integreiddio.

**Casgliad 10.** Rydym yn cefnogi ymdrechion Llywodraeth Cymru i gael eglurder ynghylch faint o'r £150 miliwn o gyllid newydd ar gyfer 2023-24 a fydd ar gael i Gymru. Byddem yn

ddiolchgar am ddiweddariad gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys manylion am sut y bydd yn dyrannu cyllid o ganlyniad.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am ei thrafodaethau â Llywodraeth y DU ar gael eglurder ynghylch faint o'r £150 miliwn o gyllid newydd ar gyfer 2023-24 a fydd ar gael i Gymru. Dylai'r diweddariad gynnwys gwybodaeth am sut y bydd y cyllid yn cael ei ddyrannu.

## Data

**25.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu platfform data yn ddiweddar i awdurdodau lleol gasglu data sy'n ymwneud â ffoaduriaid o Wcráin, gan gynnwys y niferoedd sydd wedi symud ymlaen o'u llety cychwynnol, nifer y lleoliadau sydd wedi methu, a lle mae pobl yn newid eu lleoliad.

**26.** Yn dilyn ein sesiwn dystiolaeth gydag awdurdodau lleol ym mis Mehefin 2022, gwnaethom ysgrifennu at y Gweinidog i fynegi ein pryder ynghylch y diffyg gwybodaeth a roddwyd i awdurdodau lleol gan Lywodraeth y DU ar leoli pobl drwy'r Cynllun Teuluoedd o Wcráin. Dywedwyd wrthym nad yw awdurdodau lleol yn gallu cynnal yr un gwiriadau ar gyfer y rhai sy'n cyrraedd o dan y cynllun hwnnw gan nad ydynt yn cael y wybodaeth angenrheidiol gan Lywodraeth y DU. Dywedodd y Gweinidog wrthym y byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i bwyso am gael yr un data mewn perthynas â'r rhai sydd wedi cyrraedd Cymru o dan y cynllun i deuluoedd. Nododd y Gweinidog nad yw hyn wedi digwydd.

**Casgliad 11.** Rydym yn croesawu'r cam o sefydlu'r platfform data gan Lywodraeth Cymru. Mae'n hollbwysig cael ffigurau pendant ar gyfer nifer y bobl a ble maent wedi'u lleoli er mwyn deall pa gymorth sydd ei angen ac i gynllunio ar gyfer y cymorth hwnnw.

**Casgliad 12.** Rydym yn bryderus iawn nad oes data ar gael am y rhai sydd wedi cyrraedd Cymru o dan y Cynllun Fisa i Deuluoedd. Credwn fod hon yn wybodaeth hanfodol sy'n hollbwysig i awdurdodau lleol wrth iddynt gynllunio a darparu cymorth i'r bobl hynny. Rydym yn cefnogi ymdrechion Llywodraeth Cymru i gael y data hyn. Byddwn hefyd yn ysgrifennu at Lywodraeth y DU i ofyn am esboniad ynglŷn â pham nad yw'r data hyn yn cael eu rhannu.

## Cyllid ar gyfer cefnogi pobl o Wcráin yng Nghymru

**27.** Mae papur y Gweinidog yn nodi:

> *"Caiff cost cefnogi Wcreiniaid yng Nghymru o dan y Cynllun Cartrefi i Wcráin ei thalu drwy gyfuniad o gyllid gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a chyllidebau rhaglenni presennol awdurdodau lleol yn 2022-23."*

**28.** Mae papur y Gweinidog yn nodi bod £20 miliwn wedi'i ddyrannu yn y gyllideb atodol gyntaf ar gyfer 2022-23 i ddarparu cymorth i'r rhai sy'n cyrraedd o Wcráin. Mae £51 miliwn pellach wedi'i ddyrannu ers hynny, sy'n golygu bod y cyfanswm a ddyrannwyd yn £71 miliwn yn 2022-23. Nododd y Gweinidog y canlynol yn ei phapur hefyd:

> *"Disgwylir i gostau sy'n gysylltiedig â'r cymorth rydym yn ei ddarparu drwy'r cynllun Uwch-noddwyr fod yn uwch na'r symiau hyn erbyn diwedd y flwyddyn."*

**29.** Mae cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 yn cynnwys dyraniad o £40 miliwn yn 2023-24 ac £20 miliwn pellach ar gyfer 2024-25 i ddarparu cymorth i bobl o Wcráin.

**Casgliad 13.** Rydym yn croesawu'r cyllid sydd eisoes wedi'i ddyrannu gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i ddarparu cymorth i bobl o Wcráin ac rydym yn cydnabod bod yr ansicrwydd ynghylch y sefyllfa yn Wcráin yn ei gwneud yn anodd gwneud rhagdybiaethau pendant ynghylch lefel y cyllid sydd ei angen ar gyfer blynyddoedd i ddod. Nodwn y dyraniadau sydd wedi'u cynnwys yng nghyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24. Yn ein hadroddiad ar y gyllideb ddrafft, gwnaethom groesawu'r dyraniad yn y gyllideb a gwnaethom nodi bod cyfrifoldebau ychwanegol sylweddol yn cael eu rhoi i awdurdodau lleol ar adeg pan mae cyllid eisoes dan bwysau, felly mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod yr arian sydd ar gael i lywodraeth leol at y dibenion hyn yn ddigonol. Gwnaethom ofyn hefyd am ddadansoddiad manwl gan Lywodraeth Cymru o'r dyraniadau cyllid. Rydym yn gwneud cais unwaith eto am hwnnw, ar ôl i gyllideb derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 gael ei chyhoeddi ar 28 Chwefror 2023. Mae'r argymhelliad hwn wedi'i dderbyn ac rydym yn aros am y wybodaeth gan y Gweinidog.

## Annog ffoaduriaid i wneud cyfraniadau ariannol

**30.** Mewn datganiad ar 25 Hydref 2022, dywedodd y Gweinidog wrth y Senedd fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn "ystyried y cynnig a wnawn i Wcreiniaid yr ydym yn eu cefnogi yn ein llety o dan y llwybr uwch-noddwr." Dywedodd y Gweinidog, y byddai Llywodraeth Cymru, i "wella annibyniaeth bersonol a chefnogi pobl i symud ymlaen i gam nesaf eu bywydau", yn ailedrych ar ei chynnig cefnogaeth gofleidiol er mwyn "annog gwesteion i

gyfrannu at gostau drwy enillion neu gredyd cynhwysol pryd bynnag y bo modd, ar ôl cyfnod byr cychwynnol."

**31.** Dywedodd y Gweinidog wrthym y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r bobl o Wcráin i wneud y newidiadau i'r gefnogaeth gofleidiol, gan ddweud:

> *"They're starting to earn money and also access benefits, and they're saying themselves, 'Can we contribute?' [ ] They are Ukrainian guests with us through the supersponsor route, and they want to play their part."*

**32.** Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd newidiadau'n cael eu rhoi ar waith o 9 Ionawr 2023, gyda chynlluniau peilot mewn rhai ardaloedd o 1 Rhagfyr, lle bydd gofyn i bobl sydd wedi bod mewn llety dros dro ers pum wythnos gyfrannu at rai costau sy'n gysylltiedig â phrydau bwyd a golchi dillad. Bydd pobl sy'n gwrthod dau gynnig i symud ymlaen i lety parhaol hefyd yn wynebu tâl gwasanaeth wythnosol.

**Casgliad 14.** Rydym yn croesawu'r cam a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i newid y cymorth y mae'n ei roi i bobl o Wcráin drwy ofyn am gyfraniadau ariannol ar gyfer rhai gwasanaethau. Rydym yn deall y bydd pobl am gyfrannu'n ariannol ac y dylai gwneud hynny eu helpu i integreiddio i'r gymuned.